# Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid – Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Hydref 2023

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

## Cofrestru (09.30-09.45)

## Rhag-gyfarfod preifat - Anffurfiol (09.45-10.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10.00)

## 2 Papurau i'w nodi

(10.00) (Tudalennau 1 - 5)

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Medi.

**2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 – 21 Medi 2023**

(Tudalennau 6 - 7)

**2.2 PTN 2- Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes: Amserlen y gyllideb 2024-25 – 21 Medi 2023**

(Tudalennau 8 - 9)

**2.3 PTN 3 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cyllid: Cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 27 Medi 2023**

(Tudalennau 10 - 11)

**2.4 PTN 4 – Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd mewn perthynas â'r adroddiad: Taliag costau byw 2023-24 – 29 Medi 2023**

(Tudalennau 12 - 15)

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2024-25: Sesiwn dystiolaeth

(10.00-11.00) (Tudalennau 16 - 65)

Ken Skates AS, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu

Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

Kate Innes, Prif Swyddog Cyllid

**Papurau ategol:**

FIN(6)-15-23 P1 - Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(11.00)

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2024-25: Trafod y dystiolaeth

(11.00-11.15)

## 6 Bil Seilwaith (Cymru) - Trafod yr adroddiad drafft

(11.15-11.30) (Tudalennau 66 - 78)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-15-23 P2 - Adroddiad drafft

## 7 Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion

(11.30-12.00) (Tudalennau 79 - 90)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-15-23 P3 - Llythyr drafft at y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol: Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion

FIN(6)-15-23 P4 - Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Medi 2023

Amser: 09.30 - 11.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13647

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Jonathan Price, Llywodraeth Cymru<br>Julian Revell, Llywodraeth Cymru<br>Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Emma Watkins, Llywodraeth Cymru<br>Gawain Evans, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod Preifat (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) – Amserlenni diwygiedig – 30 Mehefin 2023

2.2 PTN 2 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cyllid: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 6 Gorffennaf 2023

2.3 PTN 3 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ystadegau alldro cyfraddau Treth Incwm Cymru 2021-22 – 7 Gorffennaf 2023

2.4 PTN 4 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Gorwariant cyllideb ysgolion – 11 Gorffennaf 2023

2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Gwybodaeth ariannol i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ei hystyried wrth gynllunio eu cyllideb – 12 Gorffennaf 2023

2.6 PTN 6 – Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Amserlen Cyllideb Ddrafft 2024-25 – 17 Gorffennaf 2023

2.7 PTN 7 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) – 13 Gorffennaf 2023

2.8 PTN 8 – Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 – 27 Gorffennaf 2023

2.9 PTN 9 – Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2023-24: Ymateb Llywodraeth Cymru – 11 Awst 2023

2.10 PTN 10 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio – 23 Awst 2023

2.11 PTN 11 – Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru): Ymateb Llywodraeth Cymru – 1 Medi 2023

2.12 PTN 12 – Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Taliad costau byw – 11 Gorffennaf 2023

2.13 PTN 13 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Taliad costau byw – 1 Awst 2023

2.14 PTN 14 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cyllid: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 7 Medi 2023

2.15 PTN 15 – Llythyr gan Archwilio Cymru: Hysbysu am ddyddiadau cau archwilio – 3 Awst 2023

2.16 Papur i'w nodi 16 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Papurau tystiolaeth yn cefnogi Cyllideb Ddrafft 2024-25 – 8 Medi 2023

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 4, 5, 7, 8, 9 a 10

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – Briff technegol gyda'r Prif Economegydd

4.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio economaidd a chyllidol gan Jonathan Price, Prif Economegydd, Llywodraeth Cymru; a Julian Revell, Pennaeth Dadansoddi Cyllidol, Llywodraeth Cymru.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – Briff technegol gyda'r Prif Economegydd: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – Craffu cyn y Gyllideb

6.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth; a Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid.

6.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r canlynol:

- Nodyn ynghylch Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC), yn canolbwyntio ar sut mae treth a gesglir drwy CTIC wedyn yn cael ei defnyddio yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru.

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 - Craffu cyn y Gyllideb: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Y dull craffu ar y gyllideb

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd ar y dull o graffu ar y gyllideb a'r llythyr ymgynghori.

## 9 Adolygu protocol y gyllideb

9.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar yr adolygiad o brotocol y gyllideb a chytunodd i ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys.

## 10 Gwaith yn y dyfodol: Cynllunio strategol

10.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar gynllunio strategol.

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru

llywydd@senedd.cymru

21 Medi 2023

Annwyl Lywydd,

Yn fy llythyr dyddiedig 27 Gorffennaf ar Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, dywedais y byddwn yn comisiynu adolygiad o'r amgylchiadau sy'n ymwneud â'n gohebiaeth.

Cynhaliwyd yr adolygiad gan y Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg, nad oedd ganddo unrhyw ran flaenorol yn y mater hwn, ac mae'r adolygiad bellach wedi'i gwblhau. Ystyriodd yr holl ddogfennau perthnasol a siaradodd â'r bobl allweddol a oedd yn rhan o'r broses hon, gan gynnwys eich uwch gynghorwyr cyfreithiol. Rwyf wedi cael yr adolygiad ac wedi derbyn ei argymhellion.

Cefais sicrwydd o glywed o'r adolygiad bod pawb a oedd yn rhan o'r broses hon wedi gweithredu'n ddidwyll a chyda'r bwriad o roi'r cyngor gorau posibl. Fel yr ydym wedi nodi o'r blaen, mae delio â rhwymedigaethau masnach ryngwladol ar ôl Brexit yn diriogaeth newydd i bob un ohonom, felly efallai nad yw'n syndod ein bod yn dod o hyd i rai meysydd llwyd y mae angen gweithio drwyddynt wrth inni anelu at sefydlu'r dulliau gweithredu gorau ar gyfer y tymor hir.

Y cyngor a roddwyd i'r Gweinidogion oedd mai'r ffordd o'au o gydymffurfio ag argymhelliad Sefydliad Masnach y Byd (WTO) o chwe mis rhwng cyhoeddi a dod i rym, oedd gohirio cymhwyso'r Sêl Gymreig. Rhoddwyd y cyngor hwn yn ddidwyll ar ôl ystyried yr opsiynau a'r risgiau ac yn niffyg unrhyw gynsail. Cydnabuwyd mai peth newydd ydoedd.

Rwy'n cydnabod eich barn, er hynny, fod gan y Prif Weinidog gyfrifoldeb dros beidio ag oedi'n ormodol yn achos cymhwyso'r Sêl, ac y gellid ystyried bod gwneud hynny yn llesteirio bwriad y Senedd i roi effaith brydlon i ddeddfwriaeth y mae wedi'i chymeradwyo.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n amlwg nad wyf yn dymuno i Lywodraeth Cymru weithredu mewn ffyrdd y gellid eu hystyried yn amharchus i'r Senedd. Yng ngoleuni hyn, os byddwn mewn amgylchiadau tebyg eto, rwy'n sylweddoli y bydd angen inni ystyried ffyrdd eraill ymlaen ar y cyd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Busnes
—
Welsh Parliament
Business Committee

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

21 Medi 2023

**Amserlen cyllideb 2024-25**

Annwyl Peredur,

Yn ein cyfarfod ar 19 Medi, bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd a oedd yn ein hysbysu bod Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw bellach yn bosibl iddi gyhoeddi Cyllideb Ddrafft o fewn yr amserlen a nodwyd yn flaenorol. Felly, o dan Reol Sefydlog 20.6, mae'r Gweinidog yn bwriadu gwneud newidiadau i amserlen y Gyllideb a ddarparwyd ym mis Mehefin.

O ganlyniad, mae'r Gweinidog yn awr yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft ar 19 Rhagfyr, yn hytrach na 12 Rhagfyr fel y cytunwyd yn flaenorol. Bwriad y Llywodraeth yw na fydd y dyddiadau arfaethedig ar gyfer camau eraill yn y broses yn newid.

Rwy'n ysgrifennu i ofyn am farn y Pwyllgor Cyllid ar yr amserlen newydd, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl er mwyn galluogi'r Pwyllgor Busnes i ystyried ymhellach y newid arfaethedig i'r amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb.

Yn gywir

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPwyllgorBusnes@Senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
0300 200 6565



**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Medi 2023

Annwyl Peredur,

Yn ychwanegol at fy llythyr diweddar yn rhoi gwybod ichi am gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a gynhaliwyd ar 20 Medi yn Llundain, ac a gadeiriwyd gennyf, hoffwn roi adroddiad cryno ichi ar y trafodaethau a gafwyd. Hefyd cyhoeddwyd neges ar ôl y cyfarfod hwnnw: [Cyllid: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 20 Medi 2023 - GOV.UK (www.gov.uk)]

Roedd y Gwir Anrhydeddus John Glen AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, a Shona Robison ASA, Dirprwy Brif Weinidog yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn bresennol gyda mi. Fe wnaeth swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon fynychu'n rhithiol i arsylwi.

Yn ychwanegol at gam gweithredu o'r cyfarfod blaenorol, cytunodd yr holl Weinidogion ar Gylch Gorchwyl a Phrotocolau Gweithredu diwygiedig Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllida a adolygwyd gan swyddogion dros yr haf: [Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid - GOV.UK (www.gov.uk)]

Roedd y rhan gyntaf o'r cyfarfod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau economaidd a chyllidol. Cafwyd sgwrs am bwysau ariannu, gan gynnwys Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC). Amlinellais yr angen am eglurder pellach o ran penderfyniadau gwariant sydd wedi'u gwneud yn Lloegr a goblygiadau'r rhain ar gyfer setliad ein cyllideb, yn enwedig mewn perthynas â chyflogau yn y GIG. Cyflwynais yr achos hefyd dros fwy o hyblygrwydd, gan gynnwys pwyso am i newidiadau i derfynau benthyca a chronfeydd wrth gefn a wnaed i Fframwaith Cyllid Llywodraeth yr Alban gael eu cymhwyso yn awtomatig i Gymru.

Yn ystod trafodaeth ar Ddatganiad yr Hydref Llywodraeth y DU, pwysleisiais oblygiadau'r amseru hwyr ar gyfer cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran yr amserlen fer ar gyfer craffu gan y Senedd. Gofynnais am gyfarfod yn agosach at y datganiad i drafod unrhyw ddatblygiadau a blaenoriaethau. Nodais y byddai'n ddefnyddiol deall canlyniad

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Adolygiad Llywodraeth y DU o Gynhyrchiant ac unrhyw oblygiadau y gallai hyn eu cael ar gyfer ein setliad cyllidebol.

Roedd yr ail ran o'r cyfarfod yn canolbwyntio ar ddiogelwch ynni. Crybwyllais adroddiad Gridiau Ynni Cymru yn y Dyfodol, sy'n ddefnyddiol wrth fanylu ar yr achos brys dros fuddsoddi yn seilwaith y rhwydwaith a gridiau. Trafodwyd gwelliannau i becyn ariannu Contractau ar gyfer Gwahaniaeth, sy'n darparu cymorth ar gyfer technolegau adnewyddadwy sy'n dod i'r amlwg. Codais yr angen hefyd am fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU mewn seilwaith porthladdoedd i gefnogi defnyddio Gwynt Arnofiol ar y Môr yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth yr Alban yn cynnal y cyfarfod nesaf, ym mis Ionawr.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Eitem 2.4

Manon Antoniazzi
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Medi 29ain 2023

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Annwyl Peredur

Ysgrifennaf atoch parthed y cyfarfod a gawsom ar 12 Medi, pan wnaethom drafod, ymhlith pethau eraill, y taliad costau byw arfaethedig i staff y Comisiwn. Ar 19 Medi, cyflwynwyd cynnig ffurfiol i'r Undebau Llafur. Y cynnig yw talu'r swm llawn o £1,500 i bob aelod o staff rhwng graddau Cymorth Tîm a Gradd 6, a hynny ar ffurf dau randaliad yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y taliad fydd £824,000. Ar 26 Medi, cadarnhaodd Ochr yr Undebau Llafur eu bod yn fodlon â chynnig y Comisiwn o ran y taliad dan sylw.

Fel Swyddog Cyfrifo Comisiwn y Senedd, ysgrifennaf atoch i'ch sicrhau bod y gwariant yn fforddiadwy, yn amodol ar wneud arbedion. Gwnaed y penderfyniad i rannu'r taliad er mwyn sicrhau y bydd yr arian angenrheidiol yn hollol weladwy ar y pwynt y caiff ei dalu. Rydym wedi cydweithio'n agos ag aelodau'r Comisiwn i geisio eu barn a'u cyngor wrth i ni symud drwy'r broses hon. Mae'r Comisiwn wedi craffu ar y camau y bydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau bod y taliad hwn yn fforddiadwy, ac wedi cytuno arnynt.

Bydd rhai o'r arbedion gofynnol yn cymryd mwy o amser i'w gwireddu nag eraill yn y flwyddyn ariannol dan sylw.

Mae'r arbedion hyn yn cynnwys:

- Hyfforddant ar gyfer staff cymorth Aelodau o'r Senedd a staff y Comisiwn;
- Costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer y pwyllgorau, gweithgarwch ymgysylltu rhyngwladol, a staff y Comisiwn;
- Lleihau nifer y digwyddiadau a gynhelir;

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

- Lleihau nifer y cyhoeddiadau a brynir;
- Oedi'r broses o brynu dodrefn.

Mae rhestr lawn o'r cyllidebau yr effeithir arnynt i'w gweld yn Atodiad 1.

Byddwn yn parhau i archwilio'n fanwl unrhyw wariant arfaethedig nad oes ymrwymiad iddo eto. Yn ogystal, byddwn yn oedi'r rhan fwyaf o weithgarwch recriwtio'r Comisiwn, o leiaf am weddill y flwyddyn ariannol hon. Darperir dadansoddiad manwl o'r uchod yn yr Atodiad yr wyf yn ei rannu â chi, a hynny'n gyfrinachol.

Rydym yn gwerthfawrogi'n llwyr y ffaith y bydd yr Aelodau'n pryderu ynghylch yr effaith bosibl ar y gwasanaethau a ddarperir iddynt am weddill y flwyddyn. Drwy gydol y broses hon, rydym wedi ceisio lleihau'r effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, er mwyn gwneud y taliad hwn, roedd angen canfod ac ailgyfeirio lefel sylweddol o gyllid yn ystod y flwyddyn, ac mae'n anochel y bydd hyn yn cael rhywfaint o effaith.

Yn ystod y misoedd nesaf, bydd y Comisiwn yn trafod yr opsiynau a'r argymhellion ar gyfer canfod arbedion o gyllidebau'r Comisiwn a allai arwain at oblygiadau parhaus o ran y gwasanaethau a ddarperir i'r Senedd ac i'r Aelodau. Cyn y bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud, bydd y materion hyn hefyd yn cael eu trafod ag arweinwyr y grwpiau, cadeiryddion y grwpiau, cadeiryddion y pwyllgorau, y penaethiaid staff, cynrychiolwyr yr undebau llafur, uwch reolwyr a staff.

Byddaf yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Yn gywir

Manon Antoniazzi

**Manon Antoniazzi**
**Swyddog Cyfrifo**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad A – Rhestr Fanwl o Arbedion

[redacted]

[redacted]

Eitem 3

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Cyllideb ddrafft:
2024-25

Medi 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol a dylid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cyllideb ddrafft:** 2024-25

Medi 2023


Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 7
2. Y gyllideb ........ 8
3. Diwygio'r Senedd ........ 12
4. Ffyrdd o Weithio ........ 14
5. Y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig ........ 16
6. Y Gronfa Prosiectau ........ 17
7. Staffio ........ 18
8. Cynaliadwyedd ........ 19
9. Llywodraethiant a rheolaeth ariannol ........ 20
10. Y Gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ........ 21
11. Cwmpas y gyllideb ........ 23

Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb ........ 24

Atodiad 2: Manylion y gyllideb ........ 26


Senedd Cymru
Welsh Parliament

# 1. Cyflwyniad

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Defnyddir cyllideb Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") i dalu costau cynnal y Senedd. Mae hefyd yn talu costau cyflogau a lwfansau'r Aelodau a'u staff fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Mae gan Aelodau o'r Senedd gyfrifoldeb sylweddol. Maent yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ac yn cytuno ar drethi yng Nghymru. Yn ei dro, mae'r Comisiwn yn darparu'r sgiliau arbenigol, y gwasanaethau cymorth a'r adnoddau i gynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu gwaith craffu, deddfu a chynrychioli.

## 2. Y gyllideb

**Cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2024-25 yw £72.195 miliwn a bydd yn darparu ar gyfer:**

- **Gwariant sydd dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn, gan gynnwys cronfa brosiectau (y gyllideb weithredol);**
  - **Dwy gyllideb wedi'u neilltuo ar gyfer gwaith prosiect penodol;**
  - **Gwariant sy'n ymwneud â gwaith i baratoi ar gyfer diwygio'r Senedd;**
- **Rhaglen waith Ffyrdd o Weithio**
- **Dibrisiant (cost nad yw'n arian parod);**
- **Costau llog ar rwymedigaethau prydles fel sy'n ofynnol gan y Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 (traul anariannol)**
- **Y gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau;**
- **Y gyllideb ar gyfer costau clercio, costau gweinyddol a chostau eraill i ddarparu cymorth i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol;**
- **Y gyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau; a'r**
- **Ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd dan bennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF) Trysorlys EM (Cost Cyllid Pensiwn).**

Mae'r gyllideb ar gyfer 2024-25 wedi'i gosod yng nghyd-destun rhagolygon ariannol arbennig o heriol i'r economi ehangach, gan fod y wlad yn dal i fod yng nghanol gwasgfa costau byw. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y bydd sefyllfa gyllido Llywodraeth Cymru yn arbennig o anodd yn 2024-25, gyda thoriadau mewn termau real i gyllid a fydd yn effeithio ar yr arian sydd ar gael i'r Comisiwn a chyrff cyhoeddus eraill.

Yn y cyd-destun hwn, bu'r broses o lunio cyllideb i'r Comisiwn sy'n darparu cyllid digonol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn un gymhleth, yn enwedig gan fod angen i'r gyllideb ar gyfer 2024-25 hefyd ddarparu ar gyfer dwy raglen waith aml-flwyddyn sylweddol sydd eisoes ar y gweill ac a fydd angen symud ymlaen yn gyflym er mwyn bodloni terfynau amser deddfwriaethol a chytundebol.

Y cyntaf o'r rhain yw'r rhaglen Ffyrdd o Weithio. Roedd cyd-destun prysur gyfnewidiol y Comisiwn a'r Senedd, yn fewnol ac yn allanol, ynghyd â'r gofyniad i adolygu ein hystâd Seneddol, yn gyfle mawr am un rhaglen newid gydlynol a fydd yn sicrhau bod y Comisiwn ei hun yn parhau i ddiwallu anghenion Senedd a allai fod yn fwy o faint, a lle mae ffyrdd o weithio ers y pandemig yn parhau i esblygu.

Yr ail yw'r rhaglen waith y bydd ei hangen i gyflawni cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwygio'r Senedd, os bydd y Senedd yn derbyn y cynigion hyn.  Mae hyn yn cynnwys y paratoadau gweithdrefnol sydd eu hangen, yn ogystal â gwaith cyfalaf sylweddol i ad-drefnu ystâd y Senedd. Caiff y gwaith hwn ei lywio gan Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar 18 Medi 2023. Ceir cynigion yn y Bil hwn i gynyddu maint y Senedd o 60 i 96 Aelod a newid y ffordd y caiff Aelodau o'r Senedd eu hethol. Mae maint y newid y mae hyn yn ei olygu i Gomisiwn y Senedd a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i'r Senedd yn eithriadol o ran llwyth gwaith a gofynion adnoddau, i'r graddau nad oes modd cyflawni hyn drwy'r gyllideb weithredol bresennol nac adnoddau cyfredol y Comisiwn. Mae angen yr adnoddau presennol yn ystod y cyfnod hwn i barhau â'r busnes arferol o ddarparu gwasanaethau ar gyfer y Senedd.

Bydd y ddwy raglen a gyflwynir uchod yn cyflawni eu canlyniadau dros y tymor canolig a thu hwnt. Mae'r rhain, ynghyd â'r angen i ymdopi â phwysau cost sylweddol o fewn cyllidebau mwy heriol, wedi ysgogi'r angen i adnewyddu a gwella ein gwaith cynllunio adnoddau tymor canolig. I'r perwyl hwn, datblygodd y Comisiwn Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig. Mae'r fframwaith hwn yn gosod sylfaen ar gyfer ceisiadau cyllideb yn y dyfodol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiwn ac yn darparu mecanweithiau ar gyfer rheoli unrhyw fwlch rhwng cyfanswm yr adnoddau sydd eu hangen ar y Comisiwn, y lleiaf o adnoddau y mae'n gofyn amdanynt drwy ei gyllideb, a'r adnoddau terfynol sydd ar gael iddo.

Mae’r gyllideb gyffredinol 6.73 y cant yn uwch na chyllideb 2023-24. Mae’r elfen sy’n ymwneud â busnes dydd i ddydd y Comisiwn (y gyllideb weithredol) wedi cynyddu 2.5 y cant (y twf a ragwelir yn unol â’r datchwyddwr CMC diweddaraf). Er mwyn cyflawni o fewn y lefel hon o dwf, mae'n rhaid i'r Comisiwn ddod o hyd i £0.315 miliwn o arbedion o wariant ar weithgareddau gweithredol.

Mae twf y gyllideb weithredol cyn y ddwy raglen waith wedi’u neilltuo (gweithgareddau busnes arferol) wedi’i gadw ar £0.101 miliwn, sef cynnydd o 0.22 y cant ar ddyraniad cyllideb 2023-24, a hynny ar ôl amsugno llawer o’r pwysau chwyddiant y mae’r Comisiwn yn ei wynebu.

Yr ymrwymiad hwn i gyfyngu ar dwf cyllidebol ar gyfer elfennau craidd y gyllideb yw cydnabyddiaeth y Comisiwn o'r pwysau ar y pwrs cyhoeddus a chefnogaeth i helpu i'w lliniaru.

Mae’r gyllideb weithredol wedi gwneud darpariaeth ar gyfer dyfarniad cyflog yn y gyllideb staffio (2.0 y cant yn 2024-25), gan ddefnyddio'r setliad pum mlynedd cyflog cytûn wedi'i gysylltu â mynegai ASHE y cytunwyd arno ag Ochr yr Undebau Llafur. Bydd hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cronfa prosiect ar gyfer gwariant y tu hwnt i gostau rhedeg y Comisiwn o ddydd i ddydd, er enghraifft i ariannu’r gwaith o ddarparu system gyflogres newydd sy’n angenrheidiol yn sgil datgomisiynu’r system bresennol na fydd yn cael ei chefnogi mwyach gan y darparwyr meddalwedd, a gwaith cynnal a chadw o ran yr ystâd a'r seilwaith TGCh.

Nid ydym wedi cael gwybod eto am ganlyniadau’r prisiad bob tair blynedd o’r cynllun pensiwn ar gyfer staff y Comisiwn. Disgwylir y bydd y prisiad yn arwain at gynnydd yn y cyfraniadau y mae’r Comisiwn yn eu talu ar gyfer staff sydd yng Nghynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Arweiniodd y prisiad blaenorol at gynnydd o 6.25 y cant. Yn unol â gofynion cyllidebol, nid yw'r Comisiwn wedi cynnwys y gost anhysbys hon yn y gyllideb ddrafft a osodwyd. Dylid nodi y byddai cynnydd o'r maint blaenorol yn golygu cost ychwanegol o oddeutu £1.2 miliwn. Ni fyddai'r Comisiwn yn gallu talu hyn o'r gyllideb ddrafft a osodwyd.

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cael gwybod gan Lywodraeth Ganolog y DU am unrhyw newid erbyn diwedd mis Medi/dechrau mis Hydref. Bydd angen diwygio'r gyllideb derfynol i ystyried yr addasiad hwn os daw manylion i law mewn pryd i wneud hynny. Fel arall, bydd cais yn cael ei wneud am yr arian ychwanegol i dalu'r gost hon drwy gyllideb atodol pan fydd yn hysbys. Ein dealltwriaeth ar hyn o bryd yw y daw cyllid penodol gan Lywodraeth y DU law yn llaw ag unrhyw newid mewn cyfraniad.

| **Disgrifiad** | **Cyllideb 2023/24 £miliwn** | **Cyllideb 2024/25 £miliwn** | **newid mewn canran o gymharu â 2023-24** |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb weithredol** | £40.518 | £41.531 | 2.5% |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod** | £6.272 | £5.360 | -14.5% |
| **Treuliau mewn perthynas â'r Aelodau** | £20.282 | £21.708 | 7.0% |
| **Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio** | £0.571 | £3.596 | 529.7% |
| **Cyfanswm** | £67.643 | £72.195 | 6.73% |

# 3. Diwygio'r Senedd

Os bydd y Senedd yn derbyn Bil Llywodraeth Cymru i ddiwygio’r Senedd, dyma fydd y rhaglen newid fwyaf y bydd yn rhaid i’r Senedd ei chyflawni ers ei sefydlu ym 1999. Bydd y diwygiadau, yn ôl y cynigion presennol, yn cynyddu maint y Senedd o 60 o Aelodau i 96.

Ers cyflwyno Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), mae cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio’r Senedd wedi dod yn fwy eglur. Fodd bynnag, ni fydd ffurf derfynol y diwygiadau, ac a fyddant yn digwydd o gwbl, yn hysbys nes bod y ddeddfwriaeth wedi cwblhau ei thaith drwy’r Senedd.

Ni fydd penderfyniadau ynghylch trefniadaeth busnes y Senedd yn y Seithfed Senedd ac, o ganlyniad, y cymorth y bydd angen i’r Comisiwn ei ddarparu, yn hysbys tan ddechrau’r Seithfed Senedd. Er bod y Comisiwn yn cydnabod yr ansicrwydd hwn, rhaid iddo baratoi i ymateb yn hyblyg i anghenion y Seithfed Senedd.

Oherwydd faint o ansicrwydd sydd, paratowyd y gyllideb ar gyfer Diwygio’r Senedd gan ddefnyddio’r amcangyfrifon cost a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Senedd i Lywodraeth Cymru i’w cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a baratowyd gan Lywodraeth Cymru i gyd-fynd â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Mae’r gyllideb wedi’i neilltua fel bod arian ar gael i gyflawni gwaith â blaenoriaeth wrth i’r Bil fynd rhagddo ac wrth i natur y gwaith ddod yn glir. Yn yr un modd, os na fydd angen y cyllid, caiff ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae’r dull hwn yn dryloyw ac yn gwahanu cyllid ar gyfer Diwygio’r Senedd oddi wrth yr arian sydd ei angen i barhau i ddarparu gwasanaethau craidd y Comisiwn.

Gan ragweld y llwyth gwaith ychwanegol o ganlyniad i Ddiwygio’r Senedd, cymeradwywyd nifer o swyddi yn ystod blwyddyn gyllideb 2023-24, yn bennaf yn rhai dros dro. Cynigir tair swydd arall ar gyfer 2024-25 am gost o £0.122miliwn, a byddant yn cefnogi’r gwaith paratoi ar gyfer y newid i Senedd â 96 o Aelodau.

Mae’r costau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2024-25 wedi’u nodi yn y tabl isod. Bydd y costau cyfalaf yn dibynnu’n llwyr ar sut y bydd y Bil yn symud yn ei flaen gan fod y mwyafrif helaeth o’r costau hyn (£1.399 miliwn) yn ymwneud â’r gwaith gofynnol i ad-drefnu Tŷ Hywel i ddarparu swyddfeydd ar gyfer yr Aelodau ychwanegol a’u staff.

| Disgrifiad | Cyllideb £miliwn |
|---|---|
| **Cost swyddi yn 2024-25 a gymeradwywyd yn 2023-24** | £0.520 |
| **Staff ychwanegol (x3)** | £0.122 |
| **Costau nad ydynt yn rhai staff** | £0.023 |
| **Costau cyfalaf (swyddfeydd yr Aelodau a phecyn TGCh i staff newydd)** | £1.399 |
| **Cyfanswm** | £2.065 |

# 4. Ffyrdd o Weithio

Sefydlodd y Comisiwn y rhaglen Ffyrdd o Weithio ym mis Mawrth 2022.

Mae'n un strwythur cydlynol ar gyfer rhaglen y mae'r Comisiwn yn ei defnyddio i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n deillio o'i amgylchedd newidiol ei hun, ac anghenion esblygol y Senedd a'i Haelodau.

Mae'r rhaglen yn cynnwys tair ffrwd waith, sy'n adrodd i Fwrdd Rhaglen canolog:

- Ffrwd Waith Bae Caerdydd: bydd yn darparu ystâd o ansawdd uchel, hyblyg a chynhwysol ym Mae Caerdydd sy'n rhoi gwerth am arian cyhoeddus ac sy'n diwallu anghenion y Senedd, ei Haelodau, eu staff, Llywodraeth Cymru, dinasyddion, y cyfryngau, a Chomisiwn y Senedd yn y tymor byr, canolig a hir.
- Ffrwd Waith Gweithio Rhanbarthol: bydd yn sicrhau sylfaen ranbarthol effeithiol ar gyfer gwasanaethau allgymorth, gwybodaeth gyhoeddus, addysg a chyfieithu yng Ngogledd Cymru; ac ymchwilio i gyfleoedd posibl ar gyfer datblygu ôl troed rhanbarthol Comisiwn y Senedd dros amser a chyflwyno cynigion ar gyfer gwneud hynny.
- Datblygu a chyflawni strategaeth: bydd yn llunio a chyflwyno fframwaith strategol integredig ar gyfer pobl, lleoedd, technoleg, a modelau cyflenwi gwasanaethau Comisiwn y Senedd a chenedlaethau'r dyfodol.

Bydd ffrwd waith Bae Caerdydd yn cyflawni:

- y prosiectau ystadau angenrheidiol i baratoi ar gyfer Senedd fwy o faint (ehangu Siambr y Senedd a chynyddu capasiti Tŷ Hywel i roi lle i 36 o Aelodau eraill a'u staff). Er y bydd y rhaglen Ffyrdd o Weithio yn rheoli'r gwaith o gyflawni'r prosiectau hyn sy'n ymwneud â diwygio'r Senedd, at ddibenion tryloywder mae'r cyllid ar eu cyfer yn rhan o'r cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith diwygio'r Senedd, fel y trafodir uchod.
- prosiect Bae Caerdydd 2032. Bydd y prosiect hwn yn darparu swyddfeydd diogel hirdymor i'r Comisiwn y tu hwnt i ddiwedd prydles Tŷ Hywel yn 2032 (sy'n cynnwys swyddfeydd a chyfleusterau'r Aelodau, staff y Comisiwn a Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd). Rhagwelir mai costau cyfalaf fydd y costau sy'n gysylltiedig â phrosiect Bae 2032. Megis dechrau y mae'r prosiect hwna bydd yn gwerthuso ystod drwyadl o

opsiynau fel rhan o broses achos busnes llawn â thri cham (yn unol â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF/Llywodraeth Cymru).

Mae'r gyllideb ar gyfer y rhaglen waith hon ar gyfer 2024-25, yn yr un modd â rhaglen Diwygio'r Senedd, wedi'i neilltuo fel bod costau ar wahân ac yn dryloyw. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd maint y penderfyniadau sydd i'w gwneud fel rhan y rhaglen hon mewn perthynas ag ystadau yn ystod 2024-25. Bydd neilltuo arian yn sicrhau bod cyllid nas defnyddiwyd yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru pe bai'r achos busnes dros newid yn cefnogi opsiwn sy'n gofyn am lefel is o adnoddau na'r hyn y gofynnwyd amdano. Mae dadansoddiad o'r gofyniad cyllidebol posibl ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf i'w weld isod:

| | 2024-25 £miliwn | 2025-26 £miliwn | 2026-27 £miliwn | Cyfanswm y gost £miliwn |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect Bae 2032*** | £1.250 | £0.335 | £0.080 | £1.665 |
| **Prosiect adolygu'r Pierhead** | £0.030 | £0.000 | £0.000 | £0.030 |
| **Costau cyfreithiol** | £0.050 | £0.050 | £0.050 | £0.150 |
| **Cyflawni'r strategaeth Ffyrdd o Weithio** | £0.100 | £0.100 | £0.100 | £0.300 |
| **Rheoli Rhaglenni** | £0.101 | £0.104 | £0.107 | £0.312 |
| **Cyfanswm** | **£1.531** | **£0.589** | **£0.337** | **£2.457** |

Gan fod y rhaglen yn mewn cyfnod datblygu cynnar o hyd, nid yw'r opsiynau wedi'u diffinio'n llawn eto na'u gwneud yn destun proses werthuso lawn y Llyfr Gwyrdd. Mae'r adnoddau y gofynnwyd amdanynt fel rhan o'r gyllideb hon ar gyfer prosiect Bae 2032 yn darparu ar gyfer bwrw ymlaen yn gynt ag unrhyw opsiwn a ddewisir o ystyried bod prydles Tŷ Hywel yn dod i ben yn 2032. Daw'r darlun yn gliriach wrth i'r prosiect fynd rhagddo yn ystod y 18 mis nesaf ac wrth i'r achos busnes gael ei ddatblygu.

# 5. Y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig

Y rhagdybiaeth ar gyfer y tymor canolig yw y bydd gofynion ariannu'r Comisiwn yn uwch na'r adnoddau sydd ar gael. Felly mae angen i'r Comisiwn ddeall a lliniaru'r bwlch rhwng y ddau er mwyn parhau i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, gan gefnogi'r anghenion busnes craidd ar yr un pryd.

Mae'r Comisiwn felly wedi sefydlu Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig er mwyn nodi, deall a chostio pwysau costau yn y dyfodol cyn y cylch gyllidebol y byddant yn berthnasol iddo ac i roi digon o amser i reoli a chyfeirio adnoddau at yr ysgogwyr costau perthnasol. Gan ein bod bellach yn cyflawni rhaglenni gwaith amlflwyddyn, bydd symud i bersbectif tymor canolig (tair blynedd) yn hytrach nag ystyried ein hadnoddau ariannol fesul blwyddyn yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn deall costau mewn ffordd amserol er mwyn gallu cynllunio'n llawn.

Bydd mabwysiadu'r dull hwn hefyd yn galluogi'r Comisiwn i ddangos yn glir beth sy'n ysgogi codiadau yn ei gyllidebau (yn hytrach na rhoi'r argraff bod llinellau cyllideb 'busnes fel arfer' y Comisiwn yn cael eu tyfu'n flynyddol gan swm chwyddiant).

Mae'r Fframwaith yn cynnwys Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynllun y Gweithlu.

Fframwaith cyllidebol treigl tair blynedd yw'r cyntaf o'r rhain. Mae'n nodi ystod fanwl o senarios o ran gofynion adnoddau a phwysau cost dros y tair blynedd nesaf. Yna mae'n gosod sail resymol a realistig ar gyfer cynllunio cyllidebol dros y tymor canolig ('Senario Twf a Reolir').

Bydd yr ail o'r rhain yn cynnwys gosod Sefydliad Targed (ar gyfer y sefydliad staffio parhaol) i sicrhau bod adnoddau pobl y Comisiwn yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiwn o fewn yr amlen adnoddau sydd ar gael. Bydd yn gweithredu fel ffordd strategol o reoli costau ac yn llywio'r gwaith o reoli adnoddau mewn ffordd ystwyth, effeithiol ac effeithlon. Bydd ymgysylltu rheolaidd â Phenaethiaid Gwasanaeth (rheolwyr cyllideb) yn darparu mewnbwn ac adborth strwythuredig ynghylch sut y gall y Comisiwn gyfeirio adnoddau'n briodol at anghenion sefydliadol.

# 6. Y Gronfa Prosiectau

Mae'r Comisiwn yn cynnal cronfa prosiectau er mwyn ariannu gwariant y tu hwnt i'r cyllidebau gwasanaeth dirprwyedig.

Rhoddwyd cymeradwyaeth yn 2022-23 i greu Grŵp Rheoli Prosiectau (GRhP). Dan gadeiryddiaeth gan y Prif Swyddog Ariannol a chyda chymorth panel o bob rhan o'r Comisiwn, mae'r grŵp yn gyfrifol am sicrhau bod y portffolio prosiect ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiwn, yn cael adnoddau priodol, yn cynnig gwerth am arian, a bod prosiectau'n cael eu cyflawni'n unol ag amserlenni a manyleb y cytunir arnynt. Bydd y dull gweithredu hwn:

- yn cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd,
- yn lleihau risg,
- yn cyflawni ein hamcan strategol o ran cynaliadwyedd.

Mae'r GRhP yn argymell i'r Bwrdd Gweithredol pa brosiectau y dylid eu blaenoriaethu, yn monitro'r ddarpariaeth, ac yn defnyddio dull ystwyth o ymateb i newidiadau a phroblemau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r strategaeth ar gyfer rheoli cyllid wedi'i amlinellu mewn Strategaeth Bortffolio, sy'n nodi:

- y weledigaeth a'r nodau y cytunwyd arnynt ar gyfer portffolio'r prosiect;
- yr ysgogwyr gwerth a ddefnyddir i helpu i flaenoriaethu'r portffolio; a'r
- prif risgiau, amlen adnoddau, ac amseriadau.

Bydd y strategaeth hon yn hwyluso'r broses o ddyrannu a, lle bo'n berthnasol, ail-bennu pwrpas neu ail-flaenoriaethu arian er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau i sicrhau gwerth am arian. Y prosiectau allweddol sy'n debygol o gael eu hystyried i'w blaenoriaethu yn ystod 2024-25 yw:

- Gosod system gyflogres newydd
- Gosod system newydd ar gyfer rheoli busnes y Senedd
- Diweddariad isadeiledd darlledu

Mae'r rhain yn ychwanegol at eitemau blaenoriaeth sy'n ymwneud â'r flaenraglen waith o gynnal a chadw/atgyweirio'r seilwaith TGCh a'r ystâd.

# 7. Staffio

Mae canran fawr o gyfanswm gwariant gweithredu'r Comisiwn yn ymwneud â chostau staffio (~71 y cant), sy'n dangos ein hymrwymiad i ddatblygu a chynnal gweithlu amrywiol a hynod fedrus i gefnogi busnes y Senedd.

Blwyddyn ariannol 2024-25 yw blwyddyn olaf y dyfarniad cyflog y cytunwyd arno. Tybir y cedwir at egwyddorion y cytundeb cyflog presennol ac y caiff codiad cyflog o 3 y cant ei gymhwyso. Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, gwnaed taliadau i staff ar y ddau fand cyflog isaf ym mlwyddyn ariannol 2022-23 ac i'r holl staff islaw lefel Cyfarwyddwr yn 2023-24. Roedd y taliadau hyn y tu allan i'r cytundeb cyflog presennol, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2024.

Bydd y trafodaethau ar gyfer y cytundeb cyflog newydd yn dod i ben yn ystod 2024-25 ac yn gosod sail y gyllideb ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

Mae Strategaeth Pobl Comisiwn y Senedd yn ganolog i'r gwaith o gyflawni ein nodau a'n hamcanion strategol, gan sicrhau bod gennym weithlu ystwyth sy'n meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau cywir i ddarparu gwasanaethau rhagorol i fusnes y Senedd a'r Aelodau. Ategir y strategaeth gan ein gwerthoedd sefydliadol o barch, angerdd, balchder a chydweithio fel 'Un Tîm'. Daw'r strategaeth bresennol i ben yn ystod 2023-24 a chaiff ei gloywi a'i hadnewyddu o dan y rhaglen Ffyrdd o Weithio.

Bydd Cynllun y Gweithlu yn ceisio rheoli ac addasu ein cyflenwad staffio yn y tymor canolig i'r tymor hwy er mwyn paru adnoddau a sgiliau â'r meysydd gofynnol. Bydd hyn yn gofyn am ddull soffistigedig ac aeddfed o ran mapio sgiliau ac ystwythder o ran recriwtio a lleoli staff.

# 8. Cynaliadwyedd

Mae'r cynlluniau ariannol a chyflawni gwasanaethau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy oll yng nghyd-destun bod yn sefydliad gwirioneddol gynaliadwy.

Comisiwn y Senedd oedd un o'r sefydliadau cyhoeddus cyntaf i lunio strategaeth yn manylu ar sut y byddem yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a dod yn garbon niwtral net.

Mae'r rhaglen Ffyrdd o Weithio – sy'n dwyn ynghyd strategaethau ystâd, pobl a chynaliadwyedd y Comisiwn a'i gynllun 'dyfodol ystwyth' – wedi ein gweld yn gosod ardaloedd gweithio hyblyg ar draws yr ystâd a mwy o gyfleusterau cyfarfod hybrid. Er ein bod wedi bod yn ceisio manteisio ar y newidiadau hyn gydag arbedion effeithlonrwydd ynni, maent hefyd wedi creu buddion lles ymhlith ein staff.

Rydym wedi parhau i gyflwyno goleuadau LED, wedi cyflwyno nifer o arbedion effeithlonrwydd yn ymwneud â'r system rheoli adeilad, ac mae ein hymdrechion i leihau ein galw am wres ac aerdymheru wedi helpu i leihau costau ynni.

Mae'r Comisiwn yn credu mewn tryloywder yn ogystal â gosod y safonau uchaf inni ein hunain, a dyna pam rydym yn cynnal system rheoli amgylcheddol sy'n cael ei harchwilio'n allanol yn erbyn gofynion ISO14001. Mae'r safon reoli hon yn mynnu bod amrywiaeth o gamau yn cael eu dangos mewn archwiliad allanol, gan gynnwys rheolaethau ar effeithiau amgylcheddol allweddol, cydymffurfio â deddfwriaeth, a rhaglen o archwiliadau mewnol. Mae gennym dîm o archwilwyr mewnol hyfforddedig sy'n gwirio'r safle ffisegol a'n rheolaethau gweithredol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Mae'r archwilwyr hefyd yn gwirio am risg llygredd ac yn edrych am arbedion effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosibl.

Rydym yn parhau i weithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn ogystal â seneddau eraill y DU, er mwyn rhannu arfer gorau wrth wella'r amgylchedd yn barhaus.

# 9. Llywodraethiant a rheolaeth ariannol

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd yn cefnogi'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant corfforaethol.

Fel rhan o'i rôl, mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn dangos diddordeb mawr yn yr amgylchedd rheoli ariannol mewnol ac yn ei oruchwylio. Mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau cyfrifyddu a'r sefyllfa gyllidebol ac mae hefyd yn ymddiddori’n frwd wrth archwilio'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae aelodau o'r Pwyllgor hefyd wedi goruchwylio a herio'r fframwaith sicrwydd a'r datganiad llywodraethu.

Mae’r timau archwilio allanol a mewnol yn ffynonellau sicrwydd pwysig i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Swyddog Cyfrifyddu. Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol y Comisiwn a chaiff gymorth yn ei waith gan Archwilio Cymru. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, cyhoeddwyd barn ddiamod am y datganiadau ariannol.

Yn 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Senedd Ddatganiad o Egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol i'w hystyried wrth lunio eu hamcangyfrifon cyllideb blynyddol. Mae'r Comisiwn wedi cofio'r egwyddorion hyn wrth lunio ei amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2024-25. Mae'r amcangyfrif yn dryloyw a rhoddir tystiolaeth o'r angen am yr adnoddau y gofynnir amdanynt a’r budd ohonynt yn naratif y ddogfen hon.

Mae gan y Bwrdd Gweithredol (y “Bwrdd”) gyfrifoldeb strategol am sicrhau y caiff adnoddau'r Comisiwn eu defnyddio'n effeithiol, rhoi her i arweinwyr gwasanaeth ymdrechu i wella'n barhaus ac arwain ymdrechion i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Mae’r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo cynlluniau buddsoddi blynyddol y Comisiwn ac am flaenoriaethu buddsoddiadau yn y ffordd orau. Mae’r Bwrdd yn sicrhau bod y gwaith cynllunio capasiti adnoddau yn cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn ac mae’n darparu gwaith llywodraethu a sicrwydd ar gyfer prosiectau newid o bwys.

# 10. Y Gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau

Y Bwrdd Taliadau annibynnol yw'r corff sy'n pennu cyflogau a thaliadau'r Aelodau a'u staff cymorth, a'r system cymorth ariannol sydd ei hangen i'r Aelodau gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnl yn rhoi arian ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod chyflawni eu dyletswyddau seneddol, er enghraifft:

- cynnal swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
- cyflogau a chostau'n ymwneud â staff cymorth;
- llety preswyl yng Nghaerdydd i'r Aelodau y mae eu cartref yn bellter sylweddol i ffwrdd o'r Senedd (mae meini prawf cymhwysedd yn gymwys);
- chymorth i Grwpiau'r Pleidiau ac ymchwil polisi.

Mae'r Penderfyniad yn pennu cyflog sylfaenol yr Aelodau a chyflogau deiliaid swyddi ychwanegol. Mae'r Penderfyniad hefyd yn pennu'r dull ar gyfer codiadau i'r cyflogau hyn; yn 2024-25 disgwylir y bydd cyflogau'r Aelodau yn cynyddu yn unol â'r enillion cyfartalog yng Nghymru fel y'u mesurir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ("ASHE"), wedi'i gyfyngu ar 3 y cant. Mae cyflog sylfaenol yr Aelodau ddechrau 2022-25 wedi'i gyllidebu ar £62,056 sy'n tybio cynnydd 3 y cant ar y lefel bresennol o £69,958.

Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn adolygu elfennau o'i Benderfyniad yn flynyddol neu'n gyfnodol i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol. Bydd y Bwrdd yn cynnal ei adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad rhwng hydref 2023 a gwanwyn 2024. Nid yw'n bosibl rhagweld penderfyniadau y gallai'r Bwrdd ddewis eu gwneud yn y dyfodol. At ddibenion cyllidebu, gwnaed rhai rhagdybiaethau ar gyfer costau Penderfyniad 24-25.

Caiff yr Aelodau gyflogi staff i'w cefnogi ym mhob agwedd ar eu rôl. Y gyllideb ar gyfer costau staff cymorth ar gyfer 2024-25 yw £10.502 miliwn, sy'n cynnwys codiad o 3 y cant ar gyflogau a chymorth i'r grwpiau gwleidyddol. Mae cynnydd 3 y cant hefyd wedi'i gymhwyso ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol, gan fod costau staff cymorth hefyd yn dilyn ASHE, gyda therfyn o 3 y cant.

Mae'r Penderfyniad yn nodi'r ystod o gostau a lwfansau y gall yr Aelodau eu hawlio er mwyn rhedeg eu swyddfeydd a chyflawni eu dyletswyddau.  Y gyllideb ar gyfer costau swyddfa yw £2.394 miliwn.  At ddibenion cyllidebu, y ffactor chwyddiant a ddefnyddir ar gyfer 2024-25 yw 5 y cnt ar gyfer lwfansau (lle bo’n berthnasol), gyda chynnydd chwyddiannol o 2 y cant yn cael ei gymhwyso i’r ddwy flynedd ganlynol. Mae hyn yn rhagweld y bydd cyfnod o 'ddal i fyny' ar y lefelau uchel o chwyddiant sydd i’w gweld ar hyn o bryd, wedi'i liniaru gan ddisgwyliad y bydd chwyddiant yn dychwelyd i lefelau gwell ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn dilyn 2024-25.

Mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer tanwariant o £0.5 miliwn a ragwelir yn erbyn cyfanswm y gyllideb ar gyfer y Penderfyniad, sy'n dybiaeth ddarbodus yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol. Mae'n debygol y caiff swm o fwy na'r £0.5 miliwn hwn ei ryddhau o'r gyllideb staff cymorth ac o’r gyllideb costau swyddfa. Mae'r dull gweithredu hwn yn helpu i reoli'r gyllideb, gan ganiatáu lefel gymedrol o arian wrth gefn os bydd y Bwrdd yn penderfynu rhoi newidiadau ar waith.  Pe bai cyfanswm y gyllideb yn annigonol, e.e. oherwydd cynnydd mewn lwfansau yn ystod 2024-25 neu yn wir yn ystod 2025-26, gallai fod angen paratoi Cyllideb Atodol.

Dangosir y gyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2024-25 a'r ddwy flynedd ddilynol yn Nhabl 9.

Mae’r Comisiwn, fel sy'n ofynnol gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, yn rhoi cymorth uningyrchol i’r Bwrdd Taliadau Annibynnol. Ers 2022-23, mae cost y cymorth hwn wedi’i neilltuo yng nghyfanswm cyllideb y Comisiwn i wella tryloywder. Mae'r gyllideb yn darparu ar gyfer tîm yr ysgrifenyddiaeth, yn ogystal â chost ffioedd a threuliau teithio aelodau'r Bwrdd ac eitemau gwariant eraill fel comisiynu arbenigedd allanol. Ceir manylion yn Nhabl 11.

# 11. Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025.

Bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys yr incwm uchaf (neu'r adnoddau cronnus) y gellir eu cadw i'w defnyddio ar y gwasanaethau ac at y dibenion hynny yn lle eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd hefyd yn nodi swm yr arian parod y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net disgwyliedig sy'n ddyledus i'w talu gan y Comisiwn.

Nodir y gyllideb ar gyfer y Senedd yn 2024-25, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn yn Nhabl 1.

***Tabl 1: Cyllideb 2024-25 ar gyfer y Senedd yn unol â'r gofynion***

| **Gofynion y Senedd** | **2024-25<br>£000** |
|---|---|
| Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ('y Comisiwn') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn.<br>Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn yr Aelodau o'r Senedd. | £72,195<br>Tabl 2 |
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn, o waredu asedau sefydlog, ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog, incwm rhent, rhoddion, grantiau, sieciau, ad-daliadau ac incwm o werthiannau masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill i'w defnyddio ar gostau gweinyddol y Senedd | £100<br>Tabl 8 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion namyn derbyniadau disgwyliedig a TAW y gellir ei hadennill. | £67,365<br>Tabl 3 |

# Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb

***Tabl 2: Trosolwg o'r gyllideb***

| **Pennawd y gyllideb** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cyflogau staff a chostau cysylltiedig (Tabl 4)** | £28,357 | £29,663 | £31,033 | £31,982 |
| **Adeiladau a chyfleusterau (Tabl 5)** | £6,069 | £5,991 | £6,093 | £6,198 |
| **Costau TGCh (Tabl 6)** | £2,801 | £2,731 | £2,763 | £2,796 |
| **Costau eraill (Tabl 7)** | £1,961 | £2,061 | £2,046 | £2,046 |
| **Cyfanswm Gwariant Refeniw** | **£39,188** | **£40,446** | **£41,935** | **£43,022** |
| **Cyfanswm incwm (Tabl 8)** | (£170) | (£100) | (£100) | (£100) |
| **Gwariant cyfalaf** | £500 | £500 | £500 | £500 |
| **Cronfa Brosiectau** | £1,000 | £1,000 | £1,000 | £1,000 |
| **Arbedion i'w nodi** | £0 | (£315) | £0 | £0 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau Gweithredol** | **£40,518** | **£41,531** | **£43,334** | **£44,422** |
| **Taliadau Llog** | £866 | £610 | £600 | £580 |
| **Taliadau Dibrisiant** | £5,406 | £4,750 | £4,750 | £4,750 |
| **Cyllidebau prosiect wedi'u neilltuo** | | | | |
| **Costau Diwygio'r Senedd** | £571 | £2,065 | £5,308 | £6,018 |
| **Cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig sy'n deillio o Ddiwygio'r Senedd** | £0 | £0 | £0 | £10,569 |
| **Ffyrdd o weithio** | £0 | £1,531 | £589 | £337 |
| **Cyfanswm gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn** | **£47,361** | **£50,487** | **£54,581** | **£66,677** |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Aelodau** | | | | |
| **Cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig (Tabl 9) (yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau)** | £17,834 | £19,180 | £19,747 | £20,330 |
| **Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau (Tabl 10)** | £101 | £101 | £103 | £106 |
| **Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol (Tabl 11)** | £547 | £627 | £581 | £596 |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiadau** | £0 | £0 | £500 | £2,500 |
| **Costau cyllid pensiwn yr Aelodau** | £1,800 | £1,800 | £1,800 | £1,800 |
| **Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn** | **£67,643** | **£72,195** | **£77,312** | **£92,009** |

***Tabl 3: Cysoni'r gofyniad adnoddau newydd â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru***

| **Gofyniad arian parod net** | **2024-25 £000** |
|---|---|
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | £19,180 |
| Swyddfa'r Comisiynydd Safonau | £101 |
| Costau cymorth y Bwrdd Taliadau Annibynnol | £627 |
| Costau refeniw Diwygio'r Senedd | £666 |
| Costau refeniw Ffyrdd o Weithio | £281 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | £46,391 |
| Gofyniad cyfalaf net (gan gynnwys Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio) | £3,149 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | £1,800 |
| **Is-gyfanswm** | **£72,195** |
| **Addasiadau** | |
| Dibrisiant | (£2,750) |
| Taliadau llog / addasiadau cyfalaf yn ymwneud ag IFRS 16 | (£2,610) |
| Taliadau rhent yn ymwneud ag IFRS 16 | £2,330 |
| Newidiadau mewn darpariaethau | (£1,800) |
| **Is-gyfanswm** | |
| **Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru** | **£67,365** |

# Atodiad 2: Manylion y gyllideb

***Tabl 4: Dadansoddiad o gyflogau staff a chostau cysylltiedig***

| | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 | 2025-26 £000 | 2026-27 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff y Comisiwn | £29,357 | £30,663 | £32,033 | £32,982 |
| Amcangyfrif swyddi gwag | (£1,000) | (£1,000) | (£1,000) | (£1,000) |
| **Cyfanswm** | **£28,357** | **£29,663** | **£31,033** | **£31,982** |

***Tabl 5: Dadansoddiad o gostau adeiladau a chyfleusterau***

| | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 | 2025-26 £000 | 2026-27 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Rhent ac ardrethi, gan gynnwys maes parcio (wedi'i addasu ar gyfer IFRS 16) | £1,895 | £1,895 | £1,923 | £1,951 |
| Cynnal a chadw a gwaith | £1,035 | £1,090 | £1,090 | £1,090 |
| Diogelwch | £773 | £923 | £958 | £994 |
| Cyfleustodau | £1,251 | £980 | £1,000 | £1,020 |
| Glanhau | £561 | £575 | £587 | £598 |
| Arlwyo | £430 | £443 | £452 | £461 |
| Rhentu llungopiwyr | £85 | £20 | £20 | £20 |
| Dodrefn a gosodiadau | £60 | £65 | £65 | £65 |
| **Cyfanswm** | **£6,069** | **£5,991** | **£6,093** | **£6,198** |

***Tabl 6: Dadansoddiad o gostau TGCh***

| | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 | 2025-26 £000 | 2026-27 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau TGCh | £704 | £739 | £739 | £739 |
| Darlledu | £766 | £743 | £743 | £743 |
| Trwyddedu a chynnal a chadw | £1,231 | £1,149 | £1,181 | £1,214 |
| Refeniw a defnyddiau traul | £100 | £100 | £100 | £100 |
| **Cyfanswm** | **£2,801** | **£2,731** | **£2,763** | **£2,796** |

***Tabl 7: Dadansoddiad o gostau eraill***

| | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 | 2025-26 £000 | 2026-27 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Hyfforddiant a datblygiad | £344 | £344 | £344 | £344 |
| Gwasanaethau iaith ar gontract allanol | £300 | £305 | £305 | £305 |
| Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth | £300 | £305 | £290 | £290 |
| Costau adnoddau dynol eraill | £166 | £166 | £166 | £166 |
| Yswiriant a chostau cyfreithiol | £141 | £162 | £162 | £162 |
| Cyhoeddiadau (Saesneg yn unig) | £131 | £131 | £131 | £131 |
| Teithio a chynhaliaeth staff | £108 | £113 | £113 | £113 |
| Teithio a chynhaliaeth arall | £95 | £95 | £95 | £95 |
| Archwilio | £70 | £95 | £95 | £95 |
| Argraffu, deunydd ysgrifennu a phostio | £60 | £60 | £60 | £60 |
| Cyngor arbenigol | £46 | £46 | £46 | £46 |
| Ymgysylltu academaidd | £30 | £30 | £30 | £30 |
| Ymgynghori | £30 | £45 | £45 | £45 |
| Lletygarwch | £28 | £28 | £28 | £28 |
| Cyfrifyddu a gwasanaethau ariannol | £26 | £32 | £32 | £32 |
| Gwisgoedd a dillad | £15 | £15 | £15 | £15 |
| Fetio | £10 | £22 | £22 | £22 |
| Eitemau eraill <£20k | £61 | £67 | £67 | £67 |
| **Cyfanswm** | **£1,961** | **£2,061** | **£2,046** | **£2,046** |

***Tabl 8: Dadansoddiad o incwm***

| | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 | 2025-26 £000 | 2026-27 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwerthiannau – siop y Senedd | (£20) | (£20) | (£20) | (£20) |
| Adeiladau – incwm rhentu | (£58) | (£58) | (£58) | (£58) |
| Incwm arall | (£92) | (£22) | (£22) | (£22) |
| **Cyfanswm** | **(£170)** | **(£100)** | **(£100)** | **(£100)** |

***Tabl 9: Dadansoddiad o gyflogau'r Aelodau a'r costau cysylltiedig***

| | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 | 2025-26 £000 | 2026-27 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau Aelodau o'r Senedd ac argostau | £6,450 | £6,645 | £6,844 | £7,050 |
| Cyflogau Staff Cymorth yr Aelodau ac argostau | £9,583 | £10,641 | £10,960 | £11,289 |
| Lwfansau a Chostau Swyddfa | £2,301 | £2,394 | £2,442 | £2,491 |
| Tanwariant disgwyliedig | (£500) | (£500) | (£500) | (£500) |
| **Cyfanswm** | **£17,834** | **£19,180** | **£19,747** | **£20,330** |

***Tabl 10: Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau***

| | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 | 2025-26 £000 | 2026-27 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff | £71 | £75 | £77 | £80 |
| Cyngor Cyfreithiol. | £30 | £26 | £26 | £26 |
| **Cyfanswm** | **£101** | **£101** | **£103** | **£106** |

***Tabl 11: Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol***

| | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 | 2025-26 £000 | 2026-27 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff | £462 | £482 | £496 | £511 |
| Ffioedd a threuliau | £47 | £47 | £47 | £47 |
| Costau a threuliau eraill | £38 | £98 | £38 | £38 |
| **Cyfanswm** | **£547** | **£627** | **£581** | **£596** |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon